# SL(6)336 – Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar gyrff GIG (gan gynnwys gofal sylfaenol) yng Nghymru lle:

(i) bod person y mae'r corff GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol; a
(ii) bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r person ddioddef y canlyniad hwnnw.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan y Ddeddf honno ac maent yn nodi gweithdrefn ("y weithdrefn gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 i sicrhau bod y weithdrefn gonestrwydd yn gweithio ar y cyd â'r trefniadau presennol o dan y Rheoliadau hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(3)(b) yn cyfeirio at adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, nid yw adran 3 o'r Ddeddf honno wedi'i chychwyn eto.

Daeth Erthygl 2 o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 3) 2023 ag adran 4 o'r Ddeddf i rym o 7 Mawrth 2023 (i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau), ond ni chychwynnwyd adran 3 bryd hynny. A all Llywodraeth Cymru nodi pryd y gellir disgwyl gorchymyn cychwyn mewn perthynas ag adran 3?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:**
Bydd adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2023 i gyd-fynd â'r dyddiad y daw Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 i rym.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth.